SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Adroddiad Arolwg Y Praesept 2020/2021

**Proses ymgynghori ac ymatebion**

Roedd yr Arolwg Ymgynghorol Praeseptau ar agor rhwng 2 Rhagfyr 2019 a 17 Ionawr 2020. Roedd cyfanswm o 486 o ymatebion i'r arolwg gyda 44 yn Gymraeg a 445 yn Saesneg. Mae cyfanswm nifer yr ymatebion yn sylweddol is na'r nifer a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gwnaeth yr Etholiad Cyffredinol ym mis Rhagfyr atal hyrwyddo'r arolwg yn helaeth oherwydd y cyfyngiadau o fewn y canllaw cyn etholiad.

Yn dilyn adborth o arolwg y llynedd, sicrhaodd y Comisiynydd eleni fod yr arolwg yn hygyrch mewn nifer o fformatau. Roedd yr arolwg ar gael ar-lein, ar bapur ac mewn fformat Darllen Hawdd. Roedd 15 o gopïau papur wedi'u derbyn a derbyniwyd pump o arolygon Darllen Hawdd. Yn ogystal, fe wnaeth y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu fynychu nifer o grwpiau i Bobl Hŷn er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ymgynghoriad ac yn cael y cyfle i'w gwblhau un ai ar-lein neu ar bapur.

**Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno gyda fy mlaenoriaethau presennol?**

Gwnaeth y cwestiwn hwn holi ymatebwyr ynghylch a oeddent yn teimlo fod y blaenoriaethau presennol yn parhau'n berthnasol. Gwnaeth yr holl flaenoriaethau dderbyn ymateb cadarnhaol ac roedd dros 90% yn cytuno arnynt i gyd, ar wahân i Gaethwasiaeth Fodern. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r ymatebion.

| | Cytuno % | Anghytuno % | Ddim yn gwybod % |
|---|---|---|---|
| Lleihau Camfanteisio Troseddol | 92 | 5 | 3 |
| Cam-drin Domestig | 91 | 5 | 4 |
| Cam-drin Rhywiol | 93 | 3 | 4 |
| Caethwasiaeth Fodern | 80 | 9 | 11 |
| Troseddau Trefnedig | 95 | 2 | 3 |
| Cymdogaethau Diogelach | 95 | 2 | 3 |

**Cwestiwn 2 – Ydych chi'n credu y dylai'r flaenoriaeth o Droseddau Trefnedig newid i Droseddau Trefnedig a Thrais Difrifol?**

Mae'r awgrym i gynnwys Trais Difrifol o fewn y flaenoriaeth hon oherwydd y trais cynyddol sy'n gysylltiedig â Throseddau Trefnedig. Nodwyd hyn o fewn Strategaeth Trais Difrifol Llywodraeth y DU yn 2018.


Ar y cyfan gwnaeth yr ymatebwyr gytuno y dylai Trais Difrifol gael ei gynnwys o fewn y Flaenoriaeth Troseddau Trefnedig. Mae'r tabl isod yn dangos yr ymatebion ar y cyfan.

| | |
|---|---|
| Cytuno | 77% |
| Anghytuno | 12% |
| Ddim yn gwybod | 11% |

### Cwestiwn 3 – Pa mor dda yw'r heddlu yn eich ardal chi?

Ar y cyfan roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol gyda 48% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn ystyried yr heddlu i fod yn Ardderchog neu'n Dda. Gwnaeth y cwestiwn testun agored adael i ymatebwyr egluro eu rhesymau am y radd a roddwyd gyda chyfran uchel yn gofyn am gynnydd mewn amlygrwydd a swyddogion heddlu. Rwy'n deall y gall plismona amlwg roi tawelwch meddwl i'n cymunedau. Fodd bynnag, mae trosedd yn parhau i newid ac ni wnaiff swyddog ar batrôl atal y troseddau cudd fel camfanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth fodern a thrais domestig rhag digwydd. Mae esblygiad trosedd wedi gorfodi heddluoedd i addasu eu dulliau plismona i sicrhau eu bod yn parhau'n effeithlon ac effeithiol.

O ran cynnydd mewn swyddogion fe wnaeth y Prif Weinidog gyhoeddi Ymgyrch Uplift ym mis Medi 2019 a addawodd gynnydd o 2000 o swyddogion ledled Cymru a Lloegr. Yng Ngogledd Cymru mae hyn yn cynnwys 66 o swyddogion ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf.




### Cwestiwn 4 – A ydych yn fodlon gyda'r ffordd rwyf yn ymgynghori â chi?

Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg yn fodlon gyda'r ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r ymatebion. O fewn y cwestiwn testun agored gwnaeth nifer o ymatebwyr godi eu pryderon ynghylch hygyrchedd arolwg ar-lein. Roedd yr arolwg hwn ar gael i bawb oherwydd argaeledd arolygon ar bapur a Darllen Hawdd.

| | % |
|---|---|
| Ydw | 78 |
| Nac ydw | 9 |
| Ddim yn gwybod | 13 |


**Cwestiwn 5 – Ydych chi'n talu'r Dreth Gyngor neu Ardrethi Busnes?**

Cafodd y cwestiwn hwn ei gynnwys nodi'r nifer o dalwyr y Dreth Gyngor ac Ardrethi Busnes a oedd yn ateb yr arolwg. Roedd cyfran uwch o dalwyr y Dreth Gyngor ac Ardrethi Busnes fel y gwelir yn y tabl isod.


| | % |
|---|---|
| Treth Gyngor | 92 |
| Ardrethi Busnes | 4 |
| Dim un o'r Uchod | 4 |

**Cwestiwn 6 – A wnewch chi ddangos eich hoff lefel o gynnydd yn y Dreth Gyngor o'r dewisiadau canlynol?**

Rhoddodd y cwestiwn hwn chwe opsiwn gwahanol am gynnydd yn y Dreth Gyngor a arweiniodd at dros 71% o ymatebwyr yn gofyn am gynnydd o dros 4%. Mae'r siart gylch isod yn dangos canran yr ymatebion ar gyfer bob categori.




A wnewch chi ddangos eich hoff gynnydd yn y Dreth Gyngor o'r opsiynau canlynol?




**Cwestiwn 7 – Ym mha sir ydych yn byw ynddi?**

Yn seiliedig ar eu sir breswyl, mae'r ymatebwyr wedi newid yn sylweddol ers ymgynghoriad y llynedd pan oedd yr ymatebion ar gyfer bob sir yn eithaf cyfartal. Eleni roedd bron i hanner yr ymatebwyr yn byw yn siroedd Dinbych a Chonwy.

Ym mha sir ydych yn byw ynddi?



**Cwestiwn 8 – Sut wnaethoch chi glywed am yr arolwg?**

Fel y gwelir yn y graff isod gwnaeth y mwyafrif o'n hymatebwyr glywed am yr arolwg drwy negeseuon testun ac e-bost.

